LANSIAD PARTNERIAETH YR AFON BARLWYD - GWEITHIO I GAEL YR AFON YN NOL YN AFON FYW!

Mae cynlluniau cyffroes ar y gweill ym Mlaenau Ffestiniog wrth i grwpiau a busnesau lleol a mudiadau cenedlaethol dod at ei gilydd i achub yr Afon Barlwyd.

Mae'r afon, sydd yn Brif Afon ac yn llifo i'r Afon Dwyryd, ar hyn o bryd yn 'Afon Farw'.

'Mae cyflwr yr afon wedi bod yn bryder mawr inni ers talwm ac mae nifer o unigolion neu mudiadau unigol wedi ceisio gwella'r sefyllfa, ond dyma'r tro cyntaf i gymaint o wahanol bobl dod at ei gilydd i wneud rhywbeth amdano' meddai Paul Thomas Cynghorydd Tref ardal Tanygrisiau.

Dywed Doug Oliver o Cyngor Cefn Gwlad Cymru 'Dydw i ddim wedi gweld sigldigwt ar yr afon ers rhai blynyddoedd. Mae'r adar yma yn bwyta pryfetach di asgwrn gefn sydd yn byw mewn afonydd. Mae'r ffaith nad yw'r adar yma yn byw wrth yr afon yn arwyddocaol nad oes pryfetach yn yr afon sydd yn dangos fod yr afon wedi ei lygru'

Fydd y Partneriaeth yn cyd-weithio i leihau'r llygredd sydd yn mynd i'r afon, ac i annog pobl leol i edrych ar ei ôl.

Dywed Tim Owen o Asiantaeth yr Amgylchedd 'Mae yna nifer o resymau pam fod yr Afon Barlwyd yn Afon Farw. Yn gyntaf mae yna lygredd o ddiwydiant lleol wedi mynd iddi yn hanesyddol, a hefyd mae yna lawer o sbwriel yn cael ei daflu i'r afon. Dydyn ni ddim yn mynd i allu datrys y broblem dros nos ond mae sefydlu'r Partneriaeth yn gam cyntaf pwysig dros ben'.

Dywed Lee Oliver o Cadw Cymru'n Daclus 'Mae'n anhygoel faint o sbwriel sydd yn yr afon. A mae hyny yn rhywbeth gall bobl leol newid. Unai trwy peidio ei daflu neu i ffonio'r Cyngor os ydach chi'n gweld rhywun arall yn gwneud'

Sefydlwyd y Bartneriaeth wedi diwrnod gweithredu hynod lwyddiannus ym mis Ebrill 2008 pan ddaeth dros 30 o bobl leol allan ar fore dydd Sul (yn yr eira!) i lanhau'r afon.

Dywed Sara Ashton o brosiect Y Dref Werdd sydd yn cydlynu'r Bartneriaeth 'Mae'n wirioneddol wych faint o frwdfrydedd sydd wedi bod am y cynllun. Dim yn unig gan bobl leol, ond hefyd gan Y Cyngor Tref, gan fusnesau lleol megis y chwareli, a grwpiau fel y cymdeithasau genweirio. Mae cefnogaeth gan fudiadau cenedlaethol hefyd yn bwysig ac rydym yn falch iawn eu bod wedi cytuno cyd-weithio gyda'r gymuned mewn modd sydd mor arloesol'

Ategodd Mel Goch ap Meirion o Gymdeithas Genweirio'r Cambrian a Cynghorydd Tref 'Rydan ni'n falch iawn o fod yn rhan o'r Bartneriaeth yma. Mae cael yr afon yn nol yn afon fyw yn holl bwysig. Nid yn unig i'r pysgod ond i fywyd gwyllt yn gyffredinol, ac i'r bobl sydd yn byw yn yr ardal. Fyswn ni wedyn yn mwynhau'r afon yn lle troi ein cefnau arni. Mae hyn yn gyfle i bobl Tanygrisiau a Blaenau fod yn falch o le maen nhw'n byw'.

Cyfranwyd yn aruthrol i waith y Bartneriaeth yn ddiweddar wrth i Welsh Slate comisiynu arbenigwyr The River Restoration Centre i edrych ar ffyrdd i wella'r afon.

Fydd y Partneriaeth yn trefnu nifer o weithgareddau i alluogi pobl leol i ddysgu am ac edrych ar ôl yr Afon. Dylai'r sawl sydd â diddordeb cysylltu â Phrosiect Y Dref Werdd ar 01766 832214 neu saraashton@gwynedd.gov.uk

Gwybodaeth i Olygyddion

Prosiect Y Dref Werdd sydd yn cydlynu Partneriaeth yr Afon Barlwyd. Mae Prosiect Y Dref Werdd yn Prosiect Cymunedau'n Gyntaf Bowydd a Rhiw. Nod y Prosiect yw galluogi cymuned Bro Ffestiniog defnyddio'r amgylchfyd lleol a'r amgylchedd yn fwy cyffredinol fel adnodd i ddatblygu'r economi leol, datblygu'r gymuned a'i diwylliant, ymgodymu a phroblemau cymdeithasol, gwella iechyd a lles y boblogaeth, codi-cymhwyster, a, thrwy addysg yn yr ystyr eang, creu poblogaeth o fudd-deiliadwyr amgylcheddol bywiog ac ysgogedig. Trwy hyn byddwn hefyd yn gwarchod etifeddiaeth amgylcheddol yr ardal a chyfrannu tuag at gynaladwyedd byd-eang. Mae'r Prosiect yn un strategol ac yn integredig. Caiff y prosiect ei arianni gan Cymunedau'n Gyntaf, CAE, a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Mae yna rhai lluniau yn atodol. Am **FWY O WYBODAETH** am Prosiect Y Dref Werdd neu am Bartneriaeth yr Afon Barlwyd neu am **LUNIAU** cysylltwch â Sara Ashton ar 01766 832214 neu saraashton@gwynedd.gov.uk